De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

# RECRIWTIO SWYDDOGION YR HEDDLU

Mae mwy o ffyrdd yn awr o ddod ddod yn Swyddog yr Heddlu nag erioed o'r blaen.

**Canllawiau Rhanddeiliaid.**

Ar 25 Gorffennaf 2018, bydd Heddlu De Cymru yn dod yn un o'r heddluoedd cyntaf yn y wlad i gyflwyno tri llwybr mynediad newydd ar gyfer cwnstabliaid yr heddlu. Bydd y llwybrau newydd hyn yn disodli'r dull traddodiadol, a oedd yn cynnwys cwblhau'r Dystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona drwy Ddarparwr Cymeradwy Coleg Plismona cyn ymgymryd â Rhaglen Dysgu a Datblygu Gychwynnol yr Heddlu (IPLDP)

Drwy'r llwybrau newydd hyn rydym yn gobeithio denu talent o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gydag amrywiaeth o sgiliau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth o fod yr heddlu gorau yn y wlad am wrando ac ymateb i anghenion ein cymunedau yn effeithiol.

Rydym hefyd yn gobeithio y bydd yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais o fod yn weithlu sydd wir yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Mwy am lwybrau mynediad newydd ar gyfer cwnstabliaid yr heddlu.**

Llwybr 1

PRENTISIAETH
**APPRENTICESHIPS**

Mae Prentisiaeth Gradd Cwnstabliaid yr Heddlu (PCDA) yn brentisiaeth gradd broffesiynol 3 blynedd. Ar ôl cwblhau'r brentisiaeth, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ennill Gradd mewn Arfer Plismona Proffesiynol. I wneud cais am Brentisiaeth Gradd Cwnstabliaid yr Heddlu mae'n rhaid eich bod wedi ennill cymhwyster Lefel 3 (Safon Uwch neu safon gyfatebol) neu wedi cwblhau'r asesiad ar-lein ar sail cymwyseddau yn llwyddiannus. Mae'r heddlu yn talu pob ffi sy'n gysylltiedig â'r llwybr mynediad hwn.

Llwybr 2

DEILIAD GRADD
**DEGREE HOLDER**

Mae'r Rhaglen Mynediad i Raddedigion (DHEP) ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes yn meddu ar radd mewn unrhyw faes pwnc. Mae hon yn rhaglen academaidd ddwy flynedd yn seiliedig ar arfer. Ar ôl cwblhau'r rhaglen, bydd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn ennill Diploma mewn Arfer Plismona Proffesiynol. Mae'r heddlu yn talu pob ffi sy'n gysylltiedig â'r llwybr mynediad hwn. Rydym yn rhagweld y bydd ymgeiswyr cyntaf y ddau lwybr newydd hyn yn ymuno â'r heddlu ym mis Medi 2018.

Bydd eu hyfforddiant yn cwmpasu meysydd sy'n rhan allweddol o blismona effeithiol yn yr unfed ganrif ar hugain, fel plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed, a mynd i'r afael â seiberdroseddu ac atal troseddau.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 18 a 55 mlwydd oed.

Bydd y rhai hynny a gafodd eu recriwtio i'r naill raglen neu'r llall yn swyddog yr heddlu o'u diwrnod cyntaf yn y swydd.

Llwybr 3

GRADD CYN YMUNO
**PRE JOIN DEGREE**

**Yn dod yn fuan**

Mae'r Radd Cyn Ymuno mewn Arfer Plismona Proffesiynol ar gyfer y rhai hynny sy'n dewis cwblhau'r radd mewn Sefydliad Addysg Uwch o'u dewis, ar eu cost eu hunain. Bydd ymgeiswyr a gaiff eu recriwtio drwy'r llwybr hwn hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant academaidd yn seiliedig ar arfer er mwyn datblygu sgiliau penodol, a fydd yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf asesu cenedlaethol a chymhwysedd gweithredol.

Er mwyn helpu darpar ddarparwyr y radd cyn ymuno a'r rhai hynny a allai fod â diddordeb mewn dilyn y llwybr hwn, mae'r Coleg Plismona wedi cyhoeddi dogfen, sy'n ateb nifer o'r cwestiynau a allai fod gennych ynglŷn â'r broses.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y llwybr penodol hwn wrth iddi ddod ar gael. Rydym yn rhagweld y bydd prifysgolion yn dechrau cynnig gradd israddedig cyn ymuno mewn plismona o fis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r holl lwybrau mynediad hyn ar gael ar wefan y Coleg Plismona neu yma Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF)

# RECRIWTIO SWYDDOGION YR HEDDLU

## Faint gaiff Prentisiaid a Deiliaid Gradd eu talu?

Y cyflog cychwynnol ar gyfer y ddau lwybr yw £19,971. Ar gyfer Prentisiaid a deiliaid gradd bydd hyn yn cynyddu'n raddol bob blwyddyn i £25,224 ar adeg cwblhau'r cymhwyster, gyda'r posibilrwydd o gynyddu i £38,382 fel cwnstabl. Gall y wybodaeth hon am y cyflog newid.

## Mwy am Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu

Mae Swyddogion yr Heddlu yn gwneud penderfyniadau anodd, sy'n effeithio ar y cyhoedd bob dydd. Maent yn wynebu problemau cymhleth, yn aml mewn sefyllfaoedd peryglus, gyda gofynion cynyddol yn sgil ymchwiliadau digidol a phobl sy'n agored i niwed.

Mae'r fframwaith newydd yn cydnabod bod cwnstabliaid yn gweithredu ar lefel lle maent yn cymryd cyfrifoldeb personol am eu penderfyniadau mewn amgylcheddau cymhleth ac anwadal.

Mae swyddogion presennol yr heddlu ar y lefel honno wedi dysgu yn y swydd ac wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol. Hoffwn i'r hyfforddiant hwnnw gael ei gydnabod yn ffurfiol ar gyfer y lefel o arbenigedd a adlewyrchant.

Dyna pam rydym hefyd yn gweithio gyda'r prif sefydliadau ym maes plismona er mwyn cyflwyno rhaglenni recriwtio hyfforddiant newydd.

Byddwn hefyd yn rhoi'r cyfle i swyddogion presennol yr heddlu mewn swydd droi eu dysgu blaenorol yn gymwysterau os byddant am wneud hynny.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Datblygiad Proffesiynol y Coleg Plismona.

## Sut y caiff hwn ei ariannu?

Mae'r trefniadau ariannol sylfaenol ar gyfer y PEQF drwy'r Lefi Prentisiaeth Cenedlaethol a hon fydd y system o hyd ar gyfer Gwasanaethau'r Heddlu a leolir yn Lloegr ac efallai ar gyfer y rhai a leolir yng Nghymru.

Drwy drafodaethau gweithredol â Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, gwnaed trefniadau interim, sy'n sicrhau bod grant arbennig ar gael er mwyn talu am gostau gweithredu yn ystod 2018/19 ynghyd ag ymrwymiad tymor hwy wrth symud ymlaen.

## Atebion i'ch Cwestiynau

Rydym wedi ceisio rhagweld ac ymateb i gynifer â phosibl o'r cwestiynau a fydd gan ein partneriaid a'n cymunedau o bosibl am y llwybrau newydd hyn. Mae'r atebion i'r cwestiynau cyffredin hynny ar gael ar ein gwefan.
Os na allwch ddod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano, mae croeso i chi e-bostio:
HR-RECRUITMENT@south-wales.pnn.police.uk
neu gysylltu â ni ar 01656 655 555 ext 70123

## Dyma rai ffeithiau eraill sy'n gwrthbrofi camsyniadau

Dyma rai atebion defnyddiol i rai o'r camsyniadau mwyaf cyffredin ynglŷn â'r llwybrau newydd hyn i ymuno â ni.

- Nid oes angen gradd arnoch i wneud cais am y Prentisiaeth.
- Nid yw'r Prentisiaeth ar gyfer pobl 18 oed sy'n gadael yr ysgol yn unig. Rydym yn arbennig o awyddus i ddenu unigolion sydd â mwy o brofiad bywyd, sydd efallai'n dod o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir. Y rheini sydd â phrofiad o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed, neu efallai a wasanaethodd yn y Fyddin. Byddem hefyd yn argymell yn gryf bod y rheini sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwneud cais.
- Ni fydd angen i swyddogion na staff presennol ennill cymhwyster addysgol er mwyn aros yn eu rôl. Fodd bynnag, cyflwynir proses Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes yn gweithio ym maes plismona, os byddant am ennill cymwysterau cydnabyddedig a throsglwyddadwy.

Ymunwch #TîmHDC | **Join #TeamSWP**
www.south-wales.police.uk

